Newyddion a Chyhoeddiadau

Y Suliau Nesaf
Hydref 16 - Cwrdd Diolchgarwch yng ngofal y Twmiaid a'r Ysgol Sul
Hydref 23 - Keith Rowlands gyda Bethan Guilfoyle yn llywyddu.
Taflen a sgrin yng ngofal Keith
Hydref 30 – Eirian gyda Carol Williams yn llywyddu, Mal Pate sgrin

Meinciau Newydd
Erbyn hyn fe welwch bod dwy fainc bren wedi eu gosod yn rhes flaen canol llawr y Capel at ddefnydd y plant lleiaf. Gobeithio'n fawr iawn y bydd y plant yn eu defnyddio i wrando ar Stori'r Plant bob bore Sul.

GOHIRIO: Noson yr Esgob Jack Spong, Salem Treganna ar nos Lun 24ain Hydref o achos i'r Esgob 85 oed ddioddef strôc. Fodd bynnag, daeth newyddion da i law o America yn ystod y dyddiau diwethaf. Mae e'n gwella, ac nol ar Facebook.....

Cylch Cadwgan

Nos lau 20 Hydref 2016 am 8.00pm

KAREN OWEN yn siarad ar y testun:
'Lein a blt yng nghalon bardd'

yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

HELPU FFOADURIAID
Mae lluniau diweddaraf ein casgliad dillad ar gyfer ffoaduriaid yng ngwersyll Moria yng Ngwlad Groeg ar wefan y capel yn yr adran newyddion.
www.tabernacl.org

Elusennau'r Capel Eleni
Mae cynnwys yr amlenni brown eleni yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng pump o elusennau lleol:
1. Gofalwyr Ifanc,
2. Gorwelion Newydd Iechyd Meddwl, Aberdâr,
3. Ysgol Tŷ Coch,
4. Prosiect Peilot Cymoedd De Cymru Y Samariaid, a
5. Eye to Eye Counselling Service, Rhondda Cynon Taf.



Hydref 9fed, 2016

UN ARALL O ELUSENNAU 2016

Mae hi'n flwyddyn ers i'r Samariaid, sy'n elusen gyfarwydd i bawb, lansio eu prosiect peilot yng Nghymoedd y De. Er eu bod ar gael i bawb sydd eu hangen ar ben arall y ffôn, maen nhw'n credu'n gryf mewn presenoldeb yn y gymuned er mwyn adnabod amgylchiadau cymdeithasol sy'n peri gofid ac anobaith i unigolion. Mae'r prosiect hwn yn arwyddocaol iddyn nhw am fod y gyfradd o ddynion sy'n cyflawni hunanladdiad yng Nghymru ar ei huchaf ers 1981. Mae'n bwysig iawn bod y prosiect newydd hwn yn cael cefnogaeth ariannol.

Bydd yr **Awdur Americanaidd Brian McLaren** yn siarad yng Nghaerdydd ar Nos YFORY. Siaradwr gwych a heriol, gwerth mynd i wrando arno. Tocynnau £10 ar gael ar www.pcnbritain.org.uk neu mae 4 tocyn ar ol gan Geraint Rees

Cofiwch wefan y Capel
www.tabernacl.org a
www.cristnogaeth21.cymru

DIOLCH

Diolch i bawb am eu hymateb parod i'r cais am ddillad gwely dwbl ac offer cegin i dîm Teuluoedd mewn Argyfwng y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r cyfan wedi mynd i deulu anghenus. Os oes rhagor yn medru cyfrannu, mynnwch air â John Llewellyn.

Christianity has presented itself as a system of beliefs. That system of beliefs has supported a wide range of unintended consequences - from colonialism to environmental destruction, from subordination of women to stigmatization of LGBT people. What would it mean for Christians to rediscover their faith - not as a system of beliefs, but as a just and generous way of life, rooted in contemplation and expressed in action, that makes amends for its mistakes, and is dedicated to creating a beloved community for all? – Brian McLaren